

Adnewyddu Contractau Glastir Uwch

Copi'r wefan

Cynigir contractau Glastir Advanced wedi'u hadnewyddu neu eu hymestyn i'r canlynol:

- Bydd contractau Glastir Advanced a ddechreuodd 2015 yn cael eu hadnewyddu
- Bydd contractau Glastir Advanced wedi'u hadnewyddu a ddechreuodd 2018 a 2019 yn cael eu hymestyn
- Bydd contractau Glastir Advanced a ddechreuodd 2016 yn cael eu hadnewyddu

Bydd contractau newydd cwsmeriaid Glastir Uwch 2015 yn cychwyn ar 1 Ionawr 2020 (ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2021).

Cynigir estyniad o flwyddyn i gwsmeriaid sydd â contract Glastir Uwch a ddechreuodd yn 2018 a 2019. Cynigir estyniad arall yn 2020.

Bydd contractau cwsmeriaid Glastir Uwch 2016 yn cael eu 'hadnewyddu', a byddant yn cael eu cynnig yn ystod haf y flwyddyn nesaf, gan gychwyn ar 1 Ionawr 2021.

Nid oes gan y contractau newydd elfen Gwaith Cyfalaf, ac mae rhai opsiynau wedi'u dileu, eu hychwanegu neu eu huwchraddio, er mwyn cwrdd â'r fframwaith cyfreithiol presennol a nodir yn [Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020](#).

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr holl wybodaeth yn eich contract newydd yn ofalus. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau pellach, cysylltwch â [Taliadau Gwledig Cymru](#).

I gael mwy o wybodaeth, gweler y cwestiynau cyffredin isod.

Cwestiynau Cyffredin – Cwsmeriaid Glastir Uwch 2015

1. Pam ydych yn cynnig adnewyddu fy nghontract?

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld y buddion amgylcheddol gwerthfawr y mae deiliaid presennol y contractau'n eu cyflawni yn parhau, yn cynnwys unrhyw ymrwymïadau Glastir Sylfaenol. Bydd yn rhaid parhau i fodloni'r ymrwymïadau hyn fel rhan o'r contract Glastir Uwch newydd.

2. Mae gennyf gontract Glastir Uwch, ond nid wyf wedi cael cynnig adnewyddu fy nghontract – pam?

Dim ond contractau'r rhai sydd wedi cyflawni eu rhwymedigaethau contractiol yn ystod cyfnod y contract Glastir Uwch gwreiddiol, a'r contract Glastir Sylfaenol, y byddwn yn cynnig eu hadnewyddu.

3. Am ba hyd y bydd fy nghontract newydd yn para?

Bydd rhai a chanddynt gontractau Glastir Uwch a ddaw i ben ar **31 Rhagfyr 2019** yn cael cynnig contract newydd a fydd yn cychwyn ar 1 Ionawr 2020 ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2021 (dwy flynedd).

4. Pam nad yw fy nghontract yn cael ei adnewyddu am gyfnod hirach?

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ym mis Rhagfyr 2018 y byddai contractau Glastir yn cael eu hadnewyddu tan ddiwedd 2021.

5. Beth fydd yn cael ei gynnwys yn fy nghontract newydd?

Bydd y contract newydd yn seiliedig ar yr opsiynau rheoli a gyflawnir ym mlwyddyn olaf eich contract gwreiddiol.

Mae rhifau rhai opsiynau wedi'u haddasu er mwyn adlewyrchu [Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020](#). Cytunwyd ar hyn gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yn 2015.

Ni fydd Gwaith Cyfalaf ychwanegol yn cael ei gynnwys yn eich contract newydd, oherwydd cafodd yr holl Waith Cyfalaf a oedd yn angenrheidiol i reoli'r opsiynau contractiol yn llwyddiannus ei gynnwys yn eich contract gwreiddiol.

6. A oes rhaid imi barhau i gyflawni opsiynau gwreiddiol Glastir Sylfaenol?

Oes.

Roedd parhau i gyflawni opsiynau Glastir Sylfaenol yn un o amodau eich contract Glastir Uwch. Ymhellach, mae nifer o opsiynau Glastir Sylfaenol yn rhan o'r taliad ar gyfer nifer o opsiynau Glastir Uwch.

Os na allwch gyflawni unrhyw opsiwn yn eich contract newydd, cysylltwch â [Taliadau Gwledig Cymru](#) yn syth.

7. Nid wyf wedi cwblhau fy holl Waith Cyfalaf. A gaf ei gwblhau yn ystod cyfnod y contract newydd?

Na chewch.

NI FYDD Gwaith Cyfalaf **NAD YW** wedi'i gwblhau erbyn **31 Rhagfyr** ym mlwyddyn olaf eich contract pum mlynedd gwreiddiol yn gymwys i gael taliad yn ystod cyfod y contract newydd.

Gweler cwestiynau **15** ac **16** i gael gwybodaeth am adnewyddu contractau ac adenillion/cosbau posibl.

8. Sut y gallaf dderbyn fy nghontract newydd a beth yw'r dyddiad cau?

Byddwch yn cael cynnig i adnewyddu eich contract trwy gyfrwng Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein. Yna, bydd angen ichi dderbyn y contract hwn trwy gyfrwng Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein o fewn 21 diwrnod i'r cynnig.

9. Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn derbyn fy nghontract newydd erbyn y dyddiad cau?

Bydd eich contract Glastir pum mlynedd gwreiddiol yn dod i ben.

Gweler cwestiwn **12**.

10. Os byddaf yn dewis gwrthod fy nghontract newydd, a oes angen imi wneud unrhyw beth?

Nac oes.

Ni fydd y contract ar gael ichi ei dderbyn ar ôl i 21 diwrnod fynd heibio.

Gweler cwestiwn **12**.

11. Os byddaf yn gwrthod fy nghontract newydd, a fydd angen imi ad-dalu unrhyw daliadau a wnaed dan y contract gwreiddiol?

Na fydd.

Mae eich contract newydd yn gcontract ar wahân i'ch contract Glastir Uwch pum mlynedd gwreiddiol.

Gweler cwestiwn **12**.

12. Os na fyddaf yn derbyn nac yn gwrthod y cynnig, a fydd gennyf ymrwymïadau parhaus?

Ni cheir unrhyw ymrwymïadau contractiol parhaus. Fodd bynnag, fe'ch atgoffir y dylech barhau i fodloni'r holl ofynion rheoliadol priodol, fel [Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol](#) (AEA) ar dir a gaiff ei ystyried yn gynefin.

Sylwer: efallai y bydd angen ichi gael penderfyniad sgrinio AEA cyn ymgymryd ag unrhyw waith gwella amaethyddol.

13. Os bydd fy nghontract Glastir yn dod i ben, a fydd hyn yn effeithio ar fy nghymhwysra ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol (rheol 2008)?

Bydd.

Rhaid asesu unrhyw dir a neilltuir dan ymrwymiad Amaeth-amgylcheddol ar sail [rheolau cymhwysra Cynllun y Taliad Sylfaenol](#).

Er enghraifft, ni fydd coetir di-stoc yn gymwys ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol pan ddaw'r ymrwymiad Glastir i ben, oherwydd bydd yn cael ei ystyried fel grŵp o goed neu'n cynnwys >100 o goed gwasgaredig fesul hectar ac ni fydd yn gymwys mwyach ar gyfer hawliau Cynllun y Taliad Sylfaenol.

14. Mae fy nghontract newydd yn cynnwys tir y byddaf yn colli rheolaeth drosto yn ystod cyfnod y contract. Beth ddylwn ei wneud?

Rhaid dileu'r tir hwn o'ch contract newydd.

Rhaid ichi dderbyn y contract newydd ar-lein o fewn 21 diwrnod i gael y cynnig a rhaid ichi gysylltu â [Taliadau Gwledig Cymru](#) i roi gwybod inni am unrhyw newidiadau i'ch tir erbyn 31 Ionawr 2020. Yna, byddwn yn dileu'r tir dan sylw ac yn anfon contract newydd diwygiedig atoch cyn diwedd mis Chwefror.

Fe'ch atgoffir bod yn rhaid ichi hysbysu Taliadau Gwledig Cymru ynghylch unrhyw newidiadau i'ch tir **o fewn 30 diwrnod**.

15. Pam y mae rhai opsiynau wedi'u dileu o'm contract newydd neu wedi'u hychwanegu ato?

Mae'r opsiynau wedi'u diweddaru'n unol â gofynion [Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020](#). Cytunwyd ar hyn gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yn 2015.

16. A oes unrhyw opsiynau yn fy nghontract newydd na allaf fynd i'r afael â hwy mwyach?

Efallai y bydd yna rai opsiynau rheoli unigol na allwch fynd i'r afael â hwy am y rhesymau canlynol:

- Os gallwch ddangos *force majeure* neu amgylchiadau eithriadol sy'n egluro pam na allwch barhau ag opsiwn.
- Os yw eich opsiynau wedi'u diwygio'n unol â'r gofynion newydd y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn Ewropeaidd.

Bydd eich contract yn cynnwys eich opsiynau rheoli gwreiddiol ac unrhyw opsiynau rheoli diwygiedig, a bydd yn ofynnol ichi barhau â'r rhain yn eich contract newydd, oni bai eich bod yn gofyn am gael eu newid dan y pwyntiau uchod.

Rhaid ichi dderbyn y contract newydd o fewn 21 diwrnod i'r cynnig a rhaid ichi gysylltu â [Taliadau Gwledig Cymru](#) i roi gwybod inni am unrhyw newidiadau i'r opsiynau erbyn **31 Ionawr 2020**.

Yna, byddwn yn ystyried eich cais ac yn gwneud unrhyw newidiadau priodol. Byddwn yn anfon contract newydd atoch cyn diwedd mis Chwefror.

17. Pa opsiynau sydd wedi newid dan y fframwaith newydd?

Newid rheoliadol (Dim newid i daliadau neu ofynion rheoli)

- Mae **Opsiwn 101 (Sefydlu coed a phrysgwydd trwy blannu)** wedi'i ailenwi'n Opsiwn 420.
- Mae **Opsiwn 102 (Sefydlu coed a phrysgwydd trwy aildyfiant naturiol)** wedi'i ailenwi'n Opsiwn 421.
- Mae **Opsiynau 500 i 505 (Llwybrau troed, llwybrau ceffylau gyda chŵn neu heb gŵn, a chyflwyno hawliau tramwy cyhoeddus newydd)** wedi'u hailrifo'n Opsiynau 413 i 417.
- Mae **Opsiwn 672 (Torri llystyfiant â pheiriant)** wedi'i ailenwi'n Opsiwn 419.

Newid rheoliadol (Newid i daliadau neu ofynion rheoli)

- Mae **Opsiynau 15b/15d (Tir pori parhaol gydag ychydig iawn o fewnbynau)** wedi'u huwchraddio'n **Opsiynau 15/15c (Tir pori parhaol heb unrhyw fewnbynau)**. Yn unol â Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig, cafodd opsiynau gydag ychydig iawn o fewnbynau (15b/15d) yn Glastir Uwch eu cyfyngu i Ardaloedd Ansawdd Dŵr 1 a 2 ac ardaloedd dalgylch misglod perlog yr afon. Os yw eich tir chi yn yr ardaloedd hyn, gallwch ofyn am gael newid yr opsiynau'n ôl i 15b/15d.

Opsiynau sy'n cael eu hadnewyddu ond heb fuddsoddiad Cyfalaf i'w cefnogi

- Caiff **Opsiwn 153 (Gwndwn o Feillion Coch)** ei gynnwys fel taliad arwynebedd dewisol, ond ni fyddwn yn darparu unrhyw gyllid ar gyfer Gwaith Cyfalaf (i blannu neu ailhadu Gwndwn o Feillion Coch).
- Caiff **Opsiwn 155 (Rheoli maethynnau'n well trwy gynllunio a samplu pridd)** ei gynnwys fel taliad dewisol, ond ni fyddwn yn darparu unrhyw gyllid ar gyfer Gwaith Cyfalaf (i samplu pridd).

Heb ei adnewyddu

- Nid yw **Opsiwn 402 (Taliad rheoli ychwanegol: llosgi dan reolaeth)** yn cael ei gynnig yn y contract newydd gan fod asesiad o'r safle ar gyfer rhaglen losgi dan reolaeth wedi'i gynnal ar gyfer y contract gwreiddiol.

Arall

- Dim ond i'r cwsmeriaid hynny a chanddynt wartheg, defaid a cheffylau cymwys, fel y'u diffinnir ar restr gymeradwy ddiweddaraf y DU o fridiau brodorol sydd mewn perygl, y bydd **Opsiwn 37 (Bridiau brodorol y DU sydd mewn perygl)** yn cael ei gynnig.

18. Ble y gallaf ddod o hyd i fanylion am y newidiadau i'r opsiynau rheoli?

Gallwch ddod o hyd i'r fanyleb dechnegol ar gyfer contractau, a fydd yn cychwyn ar 1 Ionawr 2020, ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

19. Os byddaf eisiau newid fy nghontract newydd, beth sydd angen imi ei wneud?

Rhaid ichi dderbyn y contract newydd ar-lein o fewn 21 diwrnod i'r cynnig a rhaid ichi gysylltu â [Taliadau Gwledig Cymru](#) i roi gwybod inni am unrhyw newidiadau i'r opsiynau erbyn **31 Ionawr 2020**.

20. A oes rhaid imi gael caniatadau newydd ar gyfer yr opsiynau rheoli a gynhwysir yn fy nghontract newydd?

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cael cytundeb i ymestyn y caniatadau sy'n gysylltiedig â'r ymrwymïadau contractiol sydd eisoes ar waith ar gyfer tir wedi'i ddynodi'n [Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gan Cyfoeth Naturiol Cymru \(CNC\)](#).

Os oedd angen trwydded tynnu dŵr ar gyfer eich contract Glastir gwreiddiol, dim ond am gyfnod penodol y bydd trwydded o'r fath mewn grym ac fe allai ddod i ben yn ystod cyfnod eich contract newydd. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol. Cysylltwch â [CNC](#) i gael cyngor pellach.

21. Sut y caiff fy nhaliad dan y contract newydd ei gyfrifo?

Elfen Glastir Uwch: Bydd y taliad yn seiliedig ar faint yr opsiwn a'r gyfradd dalu berthnasol.

Elfen Glastir Sylfaenol: Bydd y taliad yn seiliedig ar faint yr opsiwn a'r gyfradd dalu berthnasol h.y. nid yw'r taliad yn seiliedig ar £34/hectar mwyach.

Cod y Fferm Gyfan: Bydd taliad Cod y Fferm Gyfan yn seiliedig ar y cyfraddau pedair haen diwygiedig. Gweler isod:

Cod y Fferm Gyfan	Cyfradd Dalu – £ yr hectar	Uned
	6.00	Hyd at 20.00 ha
	4.00	20.01 i 50.00 ha
	1.00	50.01 - 100.00 ha
	0.50	Dros 100 ha

22. Pryd fydd manylion y taliad dan y contract newydd yn cael eu cadarnhau?

Bydd y cynnig ar gyfer eich contract Glastir newydd yn cynnwys rhestr daliadau ddiwygiedig. Sylwer: **NI** fyddwch yn gymwys i gyflwyno ffurflen Mynegi Diddordeb ar gyfer Grantiau Bach Glastir ar gyfer unrhyw dir sy'n rhan o contract Glastir Uwch.

23. Sut y gallaf hawlio fy nhaliad blynyddol?

Rhaid ichi barhau i hawlio eich taliad blynyddol trwy ddefnyddio Ffurflen y Cais Sengl, a rhaid ichi hawlio ar gyfer pob parcel tir a gynhwysir yn eich contract newydd.

Hefyd, rhaid ichi sicrhau bod y cnydau a'r ardaloedd a gaiff eu datgan yn adlewyrchu'n gywir ofynion unrhyw opsiwn rheoli o fewn y parcel tir hwnnw.

24. Sut y byddaf yn cael taliadau ar gyfer opsiynau sy'n cylchdroi dan Glastir?

Yn awr, bydd yr opsiynau sy'n cylchdroi dan Glastir Sylfaenol yn cael eu cynnwys yn eich contract newydd, gan ddangos cyfanswm yr ardal y gallwch ei hawlio.

25. Os byddaf yn torri amodau'r contract newydd, a fydd hyn yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar y taliadau yr wyf wedi'u cael dan fy nghontract Glastir gwreiddiol?

Mae eich contract newydd yn gontract ar wahân i'ch contract pum mlynedd gwreiddiol.

Os byddwn yn canfod eich bod wedi torri amodau yn ystod cyfnod y contract newydd, byddwn yn cyflwyno cosbau ar eich hawliadau yn ystod cyfnod y contract newydd.

Os bydd y dystiolaeth yn dangos eich bod wedi torri amodau yn ystod cyfnod eich contract gwreiddiol, efallai y byddwn hefyd yn cyflwyno cosbau ar yr hawliadau a dalwyd eisoes.

Gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y tramgwydd, efallai y byddwn yn ystyried dod â'ch contract gwreiddiol a/neu eich contract newydd i ben ac adennill yr holl arian a dalwyd.

26. Pam na allaf gynnwys tir ychwanegol yr wyf wedi'i brynu neu'i rentu yn ystod fy nghontract pum mlynedd cyntaf dan Glastir Uwch?

Gan ein bod yn **adnewyddu** eich contract gwreiddiol, dim ond ar gyfer tir sy'n rhan o gontractau gwreiddiol Glastir y gellir cynnig contract newydd.

Fodd bynnag, gallwn ystyried unrhyw dir nad yw'n rhan o'ch contract Glastir Uwch dan gynllun [Grantiau Bach Glastir](#).

27. Hoffwn wneud cais am Grant Creu Coetir Glastir (GWC) ar gyfer parseli a fydd yn cael eu cynnwys yng Nghontract Glastir sydd wedi cael ei adnewyddu/estyn. Allaf wneud hynny?

Gallwch. Gallwch wneud cais am GWC ar gyfer tir a gynhwysir yn eich Contract Glastir ar hyn o bryd. Bydd y parseli'n parhau i fod yn eich Contract Glastir ond bydd unrhyw opsiynau Glastir Sylfaenol/Uwch yn cael eu tynnu.

Cwestiynau Cyffredin – Contractau Glastir Uwch newydd a gychwynnodd yn 2018 a 2019

1. Pam ydych yn cynnig estyn fy nghontract?

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld y buddion amgylcheddol gwerthfawr y mae deiliaid presennol y contractau'n eu cyflawni yn parhau, yn cynnwys unrhyw ymrwymadau Glastir Sylfaenol. Bydd yn rhaid parhau i fodloni'r ymrwymadau hyn fel rhan o'r contract Glastir Uwch newydd.

2. Am ba hyd mae fy nghontract yn cael ei estyn?

Bydd rhai a chanddynt gontractau Glastir Uwch a ddaw i ben ar **31 Rhagfyr 2019** yn cael cynnig estyniad a fydd yn cychwyn ar 1 Ionawr 2020 ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2021 (dwy flynedd). Cynigir estyn y contract am flwyddyn arall y flwyddyn nesaf.

3. Pam nad yw fy nghontract yn cael ei estyn am gyfnod hirach?

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ym mis Rhagfyr 2018 y byddai contractau Glastir yn cael eu hestyn tan ddiwedd 2021.

4. A fydd yr estyniad i'r contract yn cynnwys yr un tir ac opsiynau?

Bydd y contract newydd wedi'i estyn yr un fath â'r contract sydd gennych ar hyn o bryd, a ddaw i ben ar 31 Rhagfyr 2019.

5. Sut y gallaf dderbyn yr estyniad i'm contract? A beth yw'r dyddiad cau?

Byddwch yn cael cynnig i adnewyddu eich contract trwy gyfrwng Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein. Yna, bydd angen ichi dderbyn y contract hwn trwy gyfrwng Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein o fewn 21 diwrnod i'r cynnig.

6. Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn derbyn yr estyniad i'm contract erbyn y dyddiad cau?

Bydd eich contract Glastir newydd yn dod i ben.

7. Os byddaf yn dewis gwrthod yr estyniad i'm contract a oes angen imi wneud unrhyw beth?

Nac oes.

Ni fydd y contract ar gael ichi ei dderbyn ar ôl i 21 diwrnod fynd heibio.

8. Os byddaf yn gwrthod yr estyniad i'm contract, a fydd angen imi ad-dalu unrhyw daliadau a wnaed dan y contract gwreiddiol neu'r contract sydd gennyf ar hyn o bryd?

Na fydd.

Mae'r estyniad i'ch contract yn gcontract ar wahân i'ch contract Glastir Uwch pum mlynedd gwreiddiol ac yn estyniad i'r contract wedi'i adnewyddu sydd gennych ar hyn o bryd.

9. Os na fyddaf yn derbyn nac yn gwrthod y cynnig, a fydd gennyf ymrwymïadau parhaus?

Ni cheir unrhyw ymrwymïadau contractiol parhaus. Fodd bynnag, fe'ch atgoffir y dylech barhau i fodloni'r holl ofynion rheoleiddio priodol, fel [Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol](#) (AEA) ar dir a gaiff ei ystyried yn gynefin.

Sylwer: efallai y bydd angen ichi gael penderfyniad sgrinio AEA cyn mynd i'r afael ag unrhyw waith gwella amaethyddol.

10. Os bydd fy nghontract Glastir yn dod i ben, a fydd hyn yn effeithio ar fy nghymhwysra ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol (rheol 2008)?

Bydd.

Rhaid asesu unrhyw dir a neilltuir dan ymrwymiad Amaeth-amgylcheddol ar sail [rheolau cymhwysra Cynllun y Taliad Sylfaenol](#).

Er enghraifft, ni fydd coetir di-stoc yn gymwys ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol pan ddaw'r ymrwymiad Glastir i ben, oherwydd bydd yn cael ei ystyried fel grŵp o goed neu'n cynnwys >100 o goed gwasgaredig fesul hectar ac ni fydd yn gymwys mwyach ar gyfer hawliau Cynllun y Taliad Sylfaenol.

11. Mae fy nghontract newydd yn cynnwys tir y byddaf yn colli rheolaeth drosto yn ystod cyfnod y contract. Beth ddylwn ei wneud?

Rhaid dileu'r tir hwn o'ch contract newydd.

Rhaid ichi dderbyn y contract newydd ar-lein o fewn 21 diwrnod i gael y cynnig a rhaid ichi gysylltu â [Taliadau Gwledig Cymru](#) i roi gwybod inni am unrhyw newidiadau i'ch tir erbyn 31 Ionawr 2020. Yna, byddwn yn dileu'r tir dan sylw ac yn anfon contract newydd diwygiedig atoch cyn diwedd mis Chwefror.

Fe'ch atgoffir bod yn rhaid ichi hysbysu Taliadau Gwledig Cymru ynghylch unrhyw newidiadau i'ch tir **o fewn 30 diwrnod**.

12. Sut y gallaf hawlio fy nhaliad blynyddol?

Rhaid ichi barhau i hawlio eich taliad blynyddol trwy ddefnyddio Ffurflen y Cais Sengl, a rhaid ichi hawlio ar gyfer pob parcel tir a gynhwysir yn eich contract newydd.

Hefyd, rhaid ichi sicrhau bod y cynydau a'r ardaloedd a gaiff eu datgan yn adlewyrchu'n gywir ofynion unrhyw opsiwn rheoli o fewn y parcel tir hwnnw.

13. Sut y byddaf yn cael taliadau ar gyfer opsiynau sy'n cylchdroi dan Glastir?

Yn awr, bydd yr opsiynau sy'n cylchdroi dan Glastir Sylfaenol yn cael eu cynnwys yn eich contract newydd, gan ddangos cyfanswm yr ardal y gallwch ei hawlio.

14. Os byddaf yn torri amodau'r contract wedi'i adnewyddu yn ystod cyfnod yr estyniad, a fydd hyn yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar y taliadau yr wyf wedi'u cael dan fy nghontract Glastir gwreiddiol?

Mae eich contract newydd yn gontract ar wahân i'ch contract pum mlynedd gwreiddiol.

Os byddwn yn canfod eich bod wedi torri amodau yn ystod cyfnod yr estyniad, byddwn yn cyflwyno cosbau ar eich hawliadau yn ystod cyfnod y contract newydd.

Os bydd y dystiolaeth yn dangos eich bod wedi torri amodau yn ystod cyfnod eich contract gwreiddiol, efallai y byddwn hefyd yn cyflwyno cosbau ar yr hawliadau a dalwyd eisoes.

Gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y tramgwydd, efallai y byddwn yn ystyried dod â'ch contract gwreiddiol a/neu eich contract newydd i ben ac adennill yr holl arian a dalwyd.

15. Pam na allaf gynnwys tir ychwanegol yr wyf wedi'i brynu neu'i rentu yn ystod fy amser gyda Glastir Uwch?

Gan fod hwn yn estyniad i'ch contract presennol, dim ond ar gyfer tir sy'n rhan o gontractau gwreiddiol Glastir y gellir cynnig contract newydd.

Fodd bynnag, gallwn ystyried unrhyw dir nad yw'n rhan o'ch contract Glastir Uwch dan gynllun [Grantiau Bach Glastir](#).

16. Hoffwn wneud cais am Grant Creu Coetir Glastir (GWC) ar gyfer parseli a fydd yn cael eu cynnwys yng Nghontract Glastir sydd wedi cael ei adnewyddu/estyn. Allaf wneud hynny?

Gallwch. Gallwch wneud cais am GWC ar gyfer tir a gynhwysir yn eich Contract Glastir ar hyn o bryd. Bydd y parseli'n parhau i fod yn eich Contract Glastir ond bydd unrhyw opsiynau Glastir Sylfaenol/Uwch yn cael eu tynnu.

Cwestiynau Cyffredin – Cwsmeriaid Glastir Uwch 2016

1. Pam y cynigir fi adnewyddu fy nghontract?

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld y buddion amgylcheddol gwerthfawr y mae deiliaid presennol y contractau'n eu cyflawni yn parhau, yn cynnwys unrhyw ymrwymadau Glastir Sylfaenol. Bydd yn rhaid parhau i fodloni'r ymrwymadau hyn fel rhan o'r contract Glastir Uwch newydd.

2. Pryd y cynigir contract newydd i mi?

Bydd contractau Glastir Advanced sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020 yn troseddu contract o'r newydd yn hydref 2020

3. Am ba hyd y bydd fy nghontract newydd yn para?

Bydd rhai a chanddynt contractau Glastir Uwch a ddaw i ben ar **31 Rhagfyr 2020** yn cael cynnig contract newydd a fydd yn cychwyn ar 1 Ionawr 2021 ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2021 (blwyddyn).

4. Beth fydd yn cael ei gynnwys yn fy nghontract newydd?

Bydd y contract newydd yn seiliedig ar yr opsiynau rheoli Uwch a gyflawnir ym mlwyddyn olaf eich contract gwreiddiol.

NI chynhwysir unrhyw Waith Cyfalaf yn y contract newydd.

5. A oes rhaid imi barhau i gyflawni opsiynau gwreiddiol Glastir Sylfaenol?

Nac oes.

Bydd eich contract Glastir Sylfaenol wedi dod i ben cyn 31 Rhagfyr 2020. Dim ond opsiynau rheoli Uwch o bumed flwyddyn eich contract Glastir Uwch, a gychwynnodd ar 1 Ionawr 2016, y bydd eich contract newydd yn eu cynnwys.

6. Nid wyf wedi cwblhau fy holl Waith Cyfalaf. A gaf ei gwblhau yn ystod cyfnod y contract newydd?

Na chewch.

NI FYDD Gwaith Cyfalaf nad yw wedi'i gwblhau erbyn **31 Rhagfyr** ym mlwyddyn olaf eich contract pum mlynedd gwreiddiol yn gymwys i gael taliad yn ystod cyfod y contract newydd.

